

EXECUTIVE DECISION RECORD

DYDD IAU, 10 TACHWEDD 2022

**BWRDD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A DIOGELWCH
CYMUNEDOL Y CABINET**

Cabinet Members:

Councillors: S.Harris (Chair) a/ac A.Llewelyn

Officers in Attendance:

J.Hodges, Chele.Howard, A.Jarrett, S.McCluskie, C.Plowman, A.Thomas,
V.Smith, S.Waite a/ac K.Warren

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S Harris yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion 11 Hydref 2022 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Bod Blaenraglen Waith y Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelwch Cymunedol Ymlaen yn cael ei nodi.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd

7. **SEFYDLU FFRAMWAITH CYFRIF A REOLIR A CHEFNOGAETH GYFLOGRES**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- a) Bod ymarfer yn cael ei gynnal sy'n cynnwys yr holl ymgynghoriad angenrheidiol, i alluogi sefydlu fframwaith i ddarparwyr sy'n gallu cynnig Cyfrifon a Reolir a Gwasanaethau Cefnogi'r Gyflogres i bobl sy'n derbyn Taliad Uniongyrchol.
- b) Bod Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion yn cael awdurdod dirprwyedig i ychwanegu darparwyr sy'n bodloni gofynion y fframwaith. Bod y fframwaith yn para am bedair blynedd gyda'r opsiwn o ymestyn y cyfnod am hyd at bedair blynedd arall.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Er mwyn sicrhau bod y cyngor yn y sefyllfa orau i gyflawni'i ddyletswydd statudol i gefnogi derbynyddion Taliadau Uniongyrchol wrth sefydlu'r fframwaith.

Er mwyn sicrhau bod y cyngor yn gyson ag arfer gorau.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y gwaith o roi'r penderfyniad ar waith yn cychwyn ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, sy'n dod i ben ddydd Llun 14 Tachwedd 2022.

Ymgynghoriad:

Nid yw'n ofynnol cynnal ymgynghoriad allanol.

8. **FFRAMWAITH GOFAL CARTREF ARBENIGOL**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- a. Bod unrhyw ymgynghoriad angenrheidiol fel rhan o'r broses gomisiynu'n cael ei gynnal gan Swyddogion.

- b. Bod ymarfer caffael yn cael ei gynnal gan Swyddogion er mwyn sefydlu fframwaith amlgyflenwr ar gyfer darparu gofal cartref arbenigol, y gellir ei ddefnyddio gan y cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.
- c. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i ymrwmo i gytundeb fframwaith gyda'r cynigydd(wyr) y gwerthusir ei fod yn cynnig y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd (gan ystyried ansawdd a chost y ceisiadau), ar gyfer darparu gofal cartref arbenigol. Bod y cytundeb hwn am gyfnod o bedair blynedd gydag opsiwn i'w ymestyn am hyd at bedair blynedd arall.
- ch. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i ddefnyddio'r fframwaith hwn, lle bo'n briodol, i brynu Gwasanaethau Gofal Cartref arbenigol ac ymrwmo i gytundebau gwasanaeth unigol.
- d. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i wneud trefniant gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe er mwyn i'r cyngor gynnal y fframwaith.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Er mwyn sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio'n gyfreithiol i ymgymryd ag ymarfer caffael i brynu gwasanaeth gofal cartref arbenigol.

Er mwyn sicrhau bod y cyngor yn y sefyllfa orau i ddiwallu anghenion a galwadau'r rheini y mae angen arnynt y gwasanaethau sy'n cael eu hamlinellu o fewn y fframwaith.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y gwaith o roi'r penderfyniad ar waith yn cychwyn ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, sy'n dod i ben ddydd Llun 14 Tachwedd 2022.

Ymgynghoriad:

Nid yw'n ofynnol cynnal ymgynghoriad allanol

9. TROSGLWYDDO PRYDLES YSTAFELLOEDD NEWID RHODFA RHODES

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion Iunio cytundeb er mwyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion allu meddiannu mangre sy'n eiddo i'r cyngor a elwir yn "Ystafelloedd Newid Rhodfa Rhodes".

Rheswm dros y Penderfyniad:

Er mwyn sicrhau bod y Gwasanaethau i Oedolion yn llunio cytundeb i feddiannu Ystafelloedd Newid Rhodfa Rhodes i ddarparu hwb cymunedol anabled a hamdden gorfforol i'r gymuned.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y gwaith o roi'r penderfyniad ar waith yn cychwyn ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, sy'n dod i ben ddydd Llun 14 Tachwedd 2022.

Ymgynghoriad:

Nid yw'n ofynnol cynnal ymgynghoriad allanol

10. **CYNNYDD I FFIŌEDD CARTREFI GOFAL POBL HYN**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai yn cael awdurdod dirprwyedig i:
- Weithredu cynnydd o £30 y pen, yr wythnos i bris y contract cyfredol ar gyfer prynu gwasanaethau Cartrefi Gofal Pobl Hyn yn ardal Castell-nedd Port Talbot ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/2023;
- Bod y codiad yn cael ei ôl-ddyddio i ddechrau o 1 Ebrill 2022.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Er mwyn sicrhau bod ffioedd sy'n cael eu talu i Gartrefi Gofal Pobl Hyn yn talu costau cynyddol darparu eu gwasanaethau, gan sicrhau sefydlogrwydd y farchnad a chydymffurfiaeth â Safon 10 Fframwaith Comisiynu: Canllawiau ac Arfer Da Llywodraeth Cymru.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y gwaith o roi'r penderfyniad ar waith yn cychwyn ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, sy'n dod i ben ddydd Llun 14 Tachwedd 2022.

Ymgynghoriad:

Nid yw'n ofynnol cynnal ymgynghoriad allanol

11. **TREFNIADAU CYDWEITHREDOL CENEDLAETHOL AR GYFER GWASANAETHAU MABWYSIADU A MAETHU CYMRU (AWDURDODAU LLEOL).**

Penderfyniad:

Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i arwyddo'r Cytundeb er mwyn sefydlu Cyd-bwyllgor ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Er mwyn sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldeb o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) 2015.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith, fel y cytunwyd gyda Chadeirydd Bwrdd Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelwch Cymunedol.

Ymgynghoriad:

Nid yw'n ofynnol cynnal ymgynghoriad allanol

12. **EITEMAU BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

13. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

14. **TREFNIADAU CYTUNDEBOL AR GYFER AMRYWIAETH O WASANAETHAU PLANT A PHOBL IFANC**

Penderfyniad:

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi

15. **DATBLYGU GWASANAETHAU CAMU I FYN Y A CHAMU I LAW**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Bod rhoi'r gwasanaeth Camu i Fyny/Camu i Lawr ar waith ar gyfer pobl sy'n aros am becyn gofal cartref, dan arweiniad Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, yn cael ei nodi.
2. Bod y ffaith bod contractau gyda Haven Home Care (UK) Limited a Crosshands Home Services Limited wedi'u llunio er mwyn prynu 86 awr o ofal cartref yn cael ei nodi.
3. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion i lunio cytundeb gyda Grŵp Coastal Housing er mwyn rhentu pum uned o lety yn Ysbryd y Môr a Thŷ Twyn Teg.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Er mwyn sicrhau bod cefnogaeth briodol yn cael ei darparu i unigolion wrth aros am becyn gofal cartref.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y gwaith o roi'r penderfyniad ar waith yn cychwyn ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, sy'n dod i ben ddydd Llun 14 Tachwedd 2022.

Ymgynghoriad:

Nid yw'n ofynnol cynnal ymgynghoriad allanol

16. TREFNIADAU CYTUNDEBOL AR GYFER GWASANAETH CEFNOGI (BYWYDAU A RENNIR) LLEOLI OEDOLION

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig

- Bod Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion yn llunio contract gydag Ategi Shared Lives i ddarparu Gwasanaeth Cefnogi Lleoliadau i Oedolion am gyfnod o 12 mis;
- Bod y cynnig sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer y cyngor i ddarparu'r gwasanaeth Cefnogi Lleoliadau Oedolion yn cael ei nodi;
- Bod Swyddogion yn cynnal unrhyw ymgynghoriad sy'n angenrheidiol fel rhan o ddatblygu'r cynnig i drosglwyddo'r Gwasanaeth o'r Darparwr i'r cyngor.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Er mwyn sicrhau bod gan y cyngor gontract sy'n gyfreithiol rwymol gyda darparwyr a bod gwasanaethau hanfodol yn ddi-dor yn y datblygiadau ar gyfer y cynnig fel bod Swyddogion y cyngor yn gallu parhau i ddarparu'r gwasanaeth.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y gwaith o roi'r penderfyniad ar waith yn cychwyn ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, sy'n dod i ben ddydd Llun 14 Tachwedd 2022.

Ymgynghoriad:

Nid yw'n ofynnol cynnal ymgynghoriad allanol.

17. **CANIATÂD I YSTYRIED AILSTRWYTHURO YN HILLSIDE**

Penderfyniad:

Bod Swyddogion yn archwilio dichonoldeb ailstrwythuro yn Hillside ac yn cyflwyno adroddiad i aelodau rhyw ben yn y dyfodol er mwyn ystyried yr opsiynau hynny.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Er mwyn rhoi'r cyfle i archwilio gwahanol fodolau ar gyfer Hillside ac ymgynghori â phartneriaid ynghylch y newidiadau arfaethedig.

Cyflwynir adroddiad pellach i'r Aelodau er mwyn iddynt ystyried yr opsiynau a nodwyd.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y gwaith o roi'r penderfyniad ar waith yn cychwyn ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, sy'n dod i ben ddydd Llun 14 Tachwedd 2022.

Ymgynghoriad:

Nid yw'n ofynnol cynnal ymgynghoriad allanol

CHAIRPERSON